



Live Fear  
Free Helpline  
Providing confidential support  
and information on domestic  
abuse, sexual violence and  
violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth  
Byw Heb Ofn  
Darparu gwybodaeth a chefnogaeth  
cynffwrdd ynghylch trais domestig  
trais rhywiol a thrais yn erbyn merched  
yng Nghymru



  
Cymorth i Ferched Cymru  
Welsh Women's Aid  
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

## Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19

Ymateb i'r Ymgynghoriad gan Cymorth i Ferched Cymru

Dyddiad cau: 13.09.17

<b>Enw:</b>	<i>Hilary Watson, Swyddog Polisi ac Ymchwil</i>
<b>Sefydliad:</b>	<i>Cymorth i Ferched Cymru</i>
<b>Cyfeiriad ebost:</b>	<i>HilaryWatson@welshwomensaid.org.uk</i>
<b>Rhif ffôn:</b>	<i>02920 451 551</i>
<b>Cyfeiriad:</b>	<i>Tŷ Pendragon, Caxton Place, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE</i>
<b>Dyma farn:</b>	<i>Cymorth i Ferched Cymru (Trydydd Sector) - yr elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.</i>

### Cymorth i Ferched Cymru

Cymorth i Ferched Cymru yw'r sefydliad ymbarél cenedlaethol yng Nghymru i aelodau sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i'r 24 o wasanaethau arbenigol yn y trydydd sector sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yng Nghymru (ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol<sup>1</sup>). Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywydau a gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, fel rhan o ddarpariaeth rhwydwaith yn y DU.

Fel corff ymbarél, ein prif ddiben yw atal cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau ansawdd uchel i oroeswyr sy'n cael eu harwain gan anghenion, yn ymateb i rywedd ac yn gyfannol. Rydym ni'n cydweithio'n genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion cymunedol ac ymarfer yng Nghymru; rydym ni'n darparu cyngor, ymgynghoriaeth, cymorth a hyfforddiant i gyflawni gwelliannau polisi a gwasanaeth ar draws gwasanaethau'r llywodraeth, y sector cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac mewn cymunedau, er budd goroeswyr. Mae hyn yn cynnwys cynghori a chefnogi comisiynwyr ac arweinwyr strategol wrth ddatblygu asesiadau anghenion a chynlluniau strategol VAWDASV, hyrwyddo tystiolaeth ar gyfer modelau gwasanaeth newydd arloesol, a chefnogi ymchwil i atal cam-drin.

Mae rhai o'r gwasanaethau ymbarél niferus a gyflwynwn i'n haelodau'n cynnwys hwyluso ymwneud aelod wasanaethau â datblygiadau polisi, deddfwriaethol a strategol perthnasol ac annog cyd-gynhyrchu wrth ddatblygu gwasanaeth; darparu cyngor a gwybodaeth ar ddatblygiad a chyflawni ymarfer addawol yn y sector; darparu cymorth gyda materion polisi ac ymarfer, ac adroddiadau dadansoddi data rhanbarthol a chenedlaethol i gefnogi asesiadau lleol o anghenion, datblygiadau strategaeth a chomisiynu.

<sup>1</sup> Ein haelodaeth sef 24 o wasanaethau arbenigol VAWDASV yng Nghymru, y mae gennym bartneriaeth genedlaethol gyda nhw i sicrhau bod ein gwaith yn cael ei gydlynw a'i integreiddio: BAWSO, Hafan Cymru, Cymru Ddiogelach gan gynnwys Prosiect Dyn, Llamau, Cymorth i Ferched Caerdydd, Cyfannol, Safer Merthyr Tudful, Cymorth i Ferched Casnewydd, Cymorth i Ferched Port Talbot & Afan, Cymorth i Ferched Abertawe, Threshold, Atal Y Fro, Cymorth i Ferched RCT, Calan DVS, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru, Canolfan Argyfwng Teuluol Maldwyn, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Aberconwy, Cymorth i Ferched Bangor a'r Ardal, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, Uned Diogelwch Cam-drin Domestig (DASU), Cymorth i Ferched Glyndŵr, Gorwel (Grŵp Cynefin) a Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych (NDDAS).





Live Fear  
Free Helpline

Providing confidential support  
and information on domestic  
abuse, sexual violence and  
violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth  
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chelwogaeth  
cynffwrdd ynghylch trais domestig  
trais rhywiol a llwys yn erbyn merched  
yng Nghymru



Rydym ni hefyd yn cyflwyno gwasanaethau uniongyrchol gan gynnwys Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a gyllidir gan Lywodraeth Cymru; Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol; rhaglen waith genedlaethol Mae Plant yn Bwysig sydd, er enghraifft, yn cefnogi gwasanaethau lleol i helpu plant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin a chyflwyno rhaglenni Diogelwch, Ymddiriedaeth a Pharch (STAR) ar draws Cymru, a gwasanaethau lloches ac eiriolaeth ym Mae Colwyn a Wrecsam. Rydym ni'n peilota'r Gwasanaethau Goroewyr yn Grymuso ac Addysgu (SEEdS), sy'n grymuso goroewyr trais a cham-drin i ddylanwadu ar wasanaethau a fframweithiau comisiynu, a helpu i newid agweddau cyhoeddus a chymunedol.

Rydym ni hefyd yn gweithredu Safonau Gwasanaeth Cenedlaethol Cymru, sy'n fframwaith achredu i wasanaethau arbenigol cam-drin domestig yng Nghymru (gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. (Ceir rhagor o wybodaeth am y Safonau yma: <http://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/our-members/standards/>)

## 1.1 Ymateb Cymorth i Ferched Cymru

1.2 Mae ein hymateb yn seiliedig yn rhannol ar ein hadroddiad diweddar i'r 'Grŵp Gorchwyl a Gorffen i lywio datblygiad Model Cyllido Cynaliadwy ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol VAWDASV (trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol) yng Nghymru', sy'n adnodd yn mapio cyllid cyrff trydydd sector sydd wedi'i lywio gan brofiad gwasanaethau uniongyrchol Cymorth i Ferched Cymru a'n haelodaeth sy'n cynnwys 24 o wasanaethau arbenigol, yn ogystal â chyrrff VAWDASV ehangach ar draws Cymru.<sup>2</sup>

## 2.1 Crynodeb o argymhellion Cymorth i Ferched Cymru

1. Mae angen arweiniad cryf gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod yr ymrwymadau cenedlaethol i VAWDASV yn derbyn adnoddau effeithiol ar lefel leol a rhanbarthol. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn cyhoeddi arweiniad comisiynu cadarn ac arweiniad ar strategaeth leol i gyrff cyhoeddus cyn gynted â phosibl i wella eu harferion o ran cyllido darpariaeth VAWDASV a dod â'r loteri cod post i ben.
2. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw buddsoddi mewn ymyrraeth gynnar ac atal yn digwydd ar draul gwasanaethau cymorth arbenigol sy'n achub bywydau ac sy'n hanfodol i orewyr a'u plant.

<sup>2</sup> Gwasanaethau arbenigol/sefydliadau VAWDASV yn cysylltwyd â nhw am ymateb i'r ymgynghoriad: *Gwasanaeth Cam-drin Domestig Aberconwy, Atal y Fro, Cymorth i Ferched Bangor a'r Ardal, Barnardo's – gwasanaethau camfanteisio rhywiol, BAWSO, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, Safer Merthyr Tudful, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, Calan DVS, Cymorth i Ferched Caerdydd, Cymorth i Ferched Cyfannol, DASU, Cymorth i Ferched Glyndwr, Gorwel (Grwp Cynefin), Hafan Cymru, Henna Foundation, Llamau, Canolfan Argyfwng Teuluol Maldwyn, New Pathways, Cymorth i Ferched Casnewydd, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych, Canolfan Menywod Gogledd Cymru, NSPCC, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Phoenix, Cymorth i Ferched Port Talbot & Afan, Canolfan Trais ac Ymosodiadau Rhywiol Gogledd Cymru, Relate Cymru a Lloegr – Prosiect Cyflawnwyr Choose to Change, Cymorth i Ferched RCT, Seren, Cymru Ddiogelach (gan gynnwys Prosiect Dyn), Merthyr Tudful Diogelach, Stepping Stones, Cymorth i Ferched Abertawe, Threshold (Cymorth i Ferched Llanelli yn flaenorol), Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru, Cymorth i Ferched Bae Colwyn, a Gwasanaeth Cam-drin Domestig Wrecsam.*





Live Fear  
Free Helpline

Providing confidential support  
and information on domestic  
abuse, sexual violence and  
violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth  
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chellogaeth  
cyffwrdd ynghyd â llawer o wasanaethau  
trais rhywiol a llwys yn erbyn merched  
yng Nghymru



  
**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**  
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

3. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod buddsoddi yn y dyfodol yn bodloni'r capasiti llawn sydd ei angen i sicrhau bod gwasanaethau'n gallu cwrdd â'r galw a chadw arbenigedd.
4. Dylai cyllideb ddrafft 2018/19 adlewyrchu ymrwymiad i fodel cyllido cynaliadwy i wasanaethau arbenigol VAWDASV ar draws Cymru, a ddylai fod yn drawsadrannol ac yn addas i'r diben.
5. Dylid cynnal y Cyllid Grant Cefnogi Pobl cyfredol gyda golwg ar ymrwymo i ailgyflwyno dyraniad cyllido Cefnogi Pobl tair blynedd dangosol yn y dyfodol.
6. Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau cyllid craidd ar gyfer cyrff VAWDASV ar gyfer 2018/19 o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol (2017/18) er mwyn gwella gallu sefydliadau i gynllunio ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19.
7. Dylai model cyllido cynaliadwy Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector VAWDASV gyd-fynd â'r galw cynyddol a ddisgwylir yn sgil cyflwyno'r Ddeddf VAWDASV, sy'n drawsadrannol briodol i sicrhau cryfder y sector yn unol â'r Strategaeth a'r Cynllun Cyflenwi Cenedlaethol (ar waith ar hyn o bryd).
8. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod buddsoddiad yn y GIG a gofal cymdeithasol yn galluogi portffolios lechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai i chwarae rhan fwy yn atal cam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod.
9. Dylai costau hyfforddi llawn ar gyfer hyfforddiant gorfodol cyrff cyhoeddus fel Gofyn a Gweithredu gael eu cyllido gan gyllidebau sector cyhoeddus h.y. cyllido hyfforddiant staff lechyd dan 'Gofyn a Gweithredu', gan gynnwys cost hyfforddwr sector arbenigol o'r gyllideb lechyd.
10. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno'r model 'Newid sy'n Para' i lywio cyllid ataliol ar gyfer VAWDASV.
11. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo cyllid trawsadrannol ac amrywio ffrydiau cyllido sy'n ymdrin â'r ystod lawn o anghenion sydd gan oroeswyr VAWDASV, yn ogystal â buddsoddi mewn ymyrraeth ac atal cynnar, ynghyd â chymorth argyfwng a darpariaeth frys.
12. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn argymhell yn gryf y dylai'r gyllideb flaenoriaethu cynladwyedd y trydydd sector annibynnol (yn ogystal â'r sector cyhoeddus) yn enwedig darparwyr arbenigol bach fel gwasanaethau VAWDASV.
13. Dylid targedu buddsoddi at systemau newid a thrawsnewid, yn ogystal ag arloesi o ran gwasanaeth cyhoeddus.
14. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyllidebau trawsadrannol yn cefnogi cyflwyno canllawiau statudol amlasiantaethol sy'n cyflawni newid i systemau a 'Newid sy'n Para'.
15. Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio gwybodaeth ar sail tystiolaeth gan Cymorth i Ferched Cymru wrth benderfynu ar osod blaenoriaethau a dyrannu cyllidebau, gan gynnwys yr adroddiad a gynhrychwyd ar ran Llywodraeth Cymru ar gyfer y model cyllido cynaliadwy, a gwaith yn ymwneud â'r model "Newid sy'n Para".
16. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn dylanwadu'n gadarnhaol ar greu polisiau VAWDASV drwy ddarparu arweiniad a chanllawiau gyda disgwyliadau clir o'r safonau ansawdd sydd eu hangen yn rhanbarthol ac yn lleol, gan gynnwys ymgysylltu â'r sector arbenigol i helpu i lywio polisiau priodol ar sail tystiolaeth ym mhob maes.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

Registered Charity Number: 1140962



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Live Fear  
Free Helpline

Providing confidential support  
and information on domestic  
abuse, sexual violence and  
violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth  
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chelwogaeth  
cynffwrdd ynghylch trais domestig,  
trais rhywiol a llwys yn erbyn merched  
yng Nghymru



  
Cymorth i Ferched Cymru  
Welsh Women's Aid  
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

## 2.1 Beth, yn eich barn chi, fu effaith cyllideb 2017-18 Llywodraeth Cymru?

2.2 Croesawodd Cymorth i Ferched Cymru gyllideb VAWDASV 2017-18 Llywodraeth Cymru oedd yn ddiglyfnewid ers y flwyddyn flaenorol ar £4.5 miliwn o bunnoedd.<sup>3</sup> Mae'r buddsoddiad hwn yn hanfodol i sicrhau gweithrediad effeithiol Deddf VAWDASV (Cymru) 2015. Mae angen o leiaf y lefel hon o fuddsoddiad unwaith eto i ymdrin â'r amrywiaeth llawn o anghenion goroeswyr VAWDASV a sicrhau buddsoddiad mewn ymyrraeth gynnar ac atal, ochr yn ochr â chymorth argyfwng a darpariaeth frys. Y llynedd croesawom ni ffocws Llywodraeth Cymru ar atal ac ymyrraeth gynnar a gwelwyd hyn yn y llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant am yr hyblygrwydd yng nghyllid y Rhaglen Cefnogi Pobl sy'n ehangu i gynnwys gwaith ataliol. Ein pryder o hyd yw nad yw'r ffocws newydd hwn wedi gweld buddsoddiad pellach nac arweiniad digonol i gomisiynwyr lleol i sicrhau bod cymorth yn parhau ar gyfer gwasanaethau arbenigol sy'n achub bywydau, fel llochesi, sydd yn dal yn hanfodol i oroeswyr a'u plant ar draws Cymru.

2.3 Rydym yn parhau'n bryderus fod y gwasanaethau VAWDASV arbenigol yng Nghymru, a'r goroeswyr sy'n dibynnu arnynt, yn wynebu loteri cod post gan ddibynnu a yw comisiynwyr lleol yn eu blaenoriaethu ai peidio. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau a arweinir gan anghenion ac sy'n ymateb i rywedd fel llochesi a thai argyfwng, cymorth cymunedol 'symudol', eiriolaeth gymunedol, gwasanaethau plant a mwy. Mae gan y mwyafrif o wasanaethau lloches yng Nghymru drosiant blynyddol isel – yn sylweddol is na'u cymheiriaid yn Lloegr – a bydd unrhyw doriadau pellach i wasanaethau yn 2018/19 yn arwain at ganlyniadau niweidiol, a allai beryglu bywydau goroeswyr cam-drin. Heb gyllid diogel, ni fydd y gwasanaethau arbenigol yn gallu cyflwyno eu cymorth hanfodol bwysig i alluogi goroeswyr a'u plant i adfer a sicrhau annibyniaeth rhag trais a cham-drin.

2.4 Tra bo'r sector yn wynebu ansicrwydd parhaus gyda chyllid blwyddyn ar flwyddyn, rydym ni wedi sylwi bod dryswch hefyd ar lefel awdurdodau lleol. Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i ddatblygu strategaethau VAWDASV lleol. Mae'r strategaethau hyn yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, ond mae comisiynu eisoes ar waith ar sail ad-hoc heb arweiniad cryf gan nad yw canllawiau comisiynu Llywodraeth Cymru a'u canllawiau ar strategaethau lleol ar gael eto. Mae hyn yn debygol o arwain at barhau'r loteri cod post yr oedd Deddf VAWDASV (Cymru) 2015 yn ceisio ei unioni.

2.5 Yn genedlaethol, mae Cymorth i Ferched Cymru'n falch fod y Rhaglen Cefnogi Pobl wedi'i chydnabod yn flaenoriaeth allweddol ac wedi'i diogelu ar gyfer 2017-18. Rydym ni'n cefnogi ymgyrch Cymorth Cymru *Gadewch i ni barhau i Gefnogi Pobl* a'r angen am warchodaeth briodol i gyllideb Cefnogi Pobl yn 2018-19 a thu hwnt.

2.6 Yn 2017/18, cafwyd gostyngiad o 4% yng nghyfanswm y cyllid ar gyfer gwasanaethau VAWDASV o'r grant Cefnogi Pobl.<sup>4</sup> A chymryd mai'r Rhaglen Cefnogi Pobl yw'r cyfrannwr mwyaf i wasanaethau VAWDASV arbenigol o bell yn y trydydd sector, mae hyd yn oed gostyngiad bach mewn cyllid yn peryglu gwasanaethau. Mae angen cyswllt clir rhwng yr asesiadau o anghenion a

<sup>3</sup> <http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld10923/gen-ld10923-e.pdf>.

<sup>4</sup> Cymorth i Ferched Cymru, 'Report to National Task and Finish Group to inform the development of a Model for Sustainable Funding for VAWDASV Specialist Services in Wales – Draft August 2017'.







Live Fear  
Free Helpline

Providing confidential support  
and information on domestic  
abuse, sexual violence and  
violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth  
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chelwogaeth  
cyffwrdd ynghylch trais domestig,  
trais rhywiol a llwsg yn erbyn merched  
yng Nghymru



  
**Cymorth i Ferched Cymru**  
**Welsh Women's Aid**  
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

gynhelir i lywio strategaethau VAWDASV lleol a phenderfyniadau cyllido a wneir ynghylch y Rhaglen Cefnogi Pobl. Mae angen cyfathrebu clir rhwng grwpiau VAWDASV strategol a Phwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol i sicrhau bod penderfyniadau'n cynnal agwedd gynaliadwy at gyllido gwasanaethau arbenigol sy'n cynnwys y Rhaglen Cefnogi Pobl.

2.7 Mae effaith toriadau cyllideb blaenorol yn y sector yn dal i gael eu teimlo. Mae llawer o wasanaethau VAWDASV arbenigol ar draws Cymru yn ceisio ymadfer o flynyddoedd o gyllido ansicr ac ansefydlog ac mae rhai'n wynebu toriadau flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan arwain at wasanaethau sy'n cael eu gorlwytho a'u tangyllido. Mae'r gwasanaethau hyn wedi profi toriadau i'w gwasanaethau plant, tai, cwnsela a lloches<sup>5</sup>. Mae cyfanswm y golled i wasanaethau arbenigol yng Nghymru yn 2017-18 rhwng 3% a 5%<sup>6</sup>. Mae hyn ar ben toriadau cyllido 2016/17, a brofwyd gan 46% o aelodau cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru o wasanaethau cam-drin domestig /trais yn erbyn menywod - gyda'r mwyafrif llethol yn gwneud ymdrechion taer i amrywio eu cyllid, ar adeg pan fo'r gallu i wneud hynny'n isel iawn<sup>7</sup>. Mae goblygiadau difrifol iawn i doriadau cronus i gynaliadwydd gwasanaethau sy'n cynnig gobaith i fenywod, plant a theuluoedd ar draws Cymru.

2.7 Mae toriadau'n arwain at doriadau cyflog, lleihad yn yr oriau cymorth mewn gwasanaethau lloches, lleihad mewn capasiti ar draws cyrff cyfan a gwasanaethau'n methu â chyflogi staff newydd na chadw arbenigedd staff profiadol, sy'n cael eu gorfodi i geisio gwaith yn rhywle arall oherwydd ansicrwydd eu swyddi. Dywedodd un gwasanaeth bod eu staff yn "gwneud mwy am lai. Cynnydd mewn oriau gwaith ond rydyn ni'n dal yn methu cymryd amser i fwrdd in lieu oherwydd does dim amser!"<sup>8</sup>

#### Argymhellion:

- 1) Mae angen arweiniad cryf gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod yr ymrwymadau cenedlaethol i VAWDASV yn derbyn adnoddau effeithiol ar lefel leol a rhanbarthol. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn cyhoeddi arweiniad comisiynu cadarn ac arweiniad ar strategaeth leol i gyrrff cyhoeddus cyn gynted â phosibl i wella eu harferion o ran cyllido darpariaeth VAWDASV a dod â'r loteri cod post i ben.
- 2) Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw buddsoddi mewn ymyrraeth gynnar ac atal yn digwydd ar draul gwasanaethau cymorth arbenigol sy'n achub bywydau ac sy'n hanfodol i oesoedwyr a'u plant.
- 3) Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod buddsoddi yn y dyfodol yn bodloni'r capasiti llawn sydd ei angen i sicrhau bod gwasanaethau'n gallu cwrdd â'r galw a chadw arbenigedd.

### 3.1 Pa ddisgwyliadau sydd gennych chi o gynigion drafft cyllideb 2018-19?

3.2 Mae Cymorth i Ferched Cymru'n croesawu'r ymrwymiad mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i fodel o gyllid cynaliadwy i'r sector VAWDASV arbenigol, fel y'i heglurir yn y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol<sup>9</sup>. Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd rhagwelir y bydd Deddf VAWDASV (Cymru) 2015 yn cynyddu

<sup>5</sup> <http://www.welshomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/State-of-the-Sector-Report-2016-FINAL.pdf>.

<sup>6</sup> Cymorth i Ferched Cymru, 'Report to National Task and Finish Group to inform the development of a Model for Sustainable Funding for VAWDASV Specialist Services in Wales – Draft August 2017'

<sup>7</sup> <http://www.welshomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/State-of-the-Sector-Report-2016-FINAL.pdf>.

<sup>8</sup> Ibid.

<sup>9</sup> <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/161104-national-strategy-en.pdf>





Live Fear  
Free Helpline

Providing confidential support  
and information on domestic  
abuse, sexual violence and  
violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth  
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chelwogaeth  
cyswrtedig ynghylch traws-ddorwg  
traws-fywiad a llwys yn erbyn merched  
yng Nghymru



ymwybyddiaeth, datgelu ac atgyfeirio at wasanaethau. Byddai Cymorth i Ferched Cymru yn disgwyl i gyllideb 2018-19 adlewyrchu'r ymrwymiad hwn i fodel cynaliadwy.

3.3 Rydym ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu model cyllido cynaliadwy, sydd angen ei gyrchu o gyllidebau trawsadrannol ar gyfer y sector VAWDASV arbenigol yng Nghymru. Bydd y model hwn yn diogelu arbenigedd cyrff arbenigol sydd wedi bod yn darparu gwasanaethau sy'n achub bywydau, llefydd mewn llochesi a darpariaeth sy'n newid bywydau ers pedair degawd. Heb fodel addas i'r diben o gyllid cynaliadwy wedi'i deilwra i'r sector, mae gwasanaethau'n annhebygol o fod yn gadarn, ond yn hytrach yn parhau i frwydro i oroesi gyda chyllid blwyddyn ar ôl blwyddyn sy'n gwneud cynllunio at y dyfodol a chadw arbenigedd yn hynod o anodd.<sup>10</sup>

3.4 Er mwyn llwyddo, rhaid i'r model cyllido cynaliadwy gael cefnogaeth genedlaethol a lleol. Unwaith y bydd wedi'i orffen, mae Cymorth i Ferched Cymru yn gofyn i Lywodraeth Cymru gyfleu eu swyddogaethau i awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol a Byrddau Gwasanaethau Lleol o ran gwneud y model cyllid cynaliadwy'n hyfyw yn eu hardal leol.

3.3 Mae Cymorth i Ferched Cymru'n argymhell y dylai cyllid Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl aros ar o leiaf y lefelau cyfredol yng nghyllideb 2018-19. Rydym ni'n pryderu y byddai unrhyw leihad yng nghyllid Cefnogi Pobl yn cael effaith enfawr ar y bobl fwyaf bregus yng Nghymru, yn enwedig goroeswyr VAWDASV a phlant. Yn unol ag argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru<sup>11</sup>, mae Cymorth i Ferched Cymru'n cefnogi galwad i ailgyflwyno dyraniadau cyllido dangosol tair blynedd ar gyfer Cefnogi Pobl, a fyddai'n golygu gwell sicrwydd ar draws gwasanaethau a gyllidir gan Cefnogi Pobl.

#### Argymhelliad:

- 1) Dylai cyllideb ddrafft 2018/19 adlewyrchu ymrwymiad i fodel cyllido cynaliadwy i wasanaethau arbenigol VAWDASV ar draws Cymru, a ddylai fod yn drawsadrannol ac yn addas i'r diben.
- 2) Dylid cynnal y Cyllid Grant Cefnogi Pobl cyfredol gyda golwg ar ymrwymo i ailgyflwyno dyraniad cyllido Cefnogi Pobl tair blynedd dangosol yn y dyfodol.

#### 4.1 Pa mor barod yn ariannol yw eich sefydliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19 a pha mor gadarn yw eich gallu i gynllunio ar gyfer blynyddoedd y dyfodol?

4.2 Mae Cymorth i Ferched Cymru'n ymgynghori'n rheolaidd gyda'n haelodau drwy ein Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyllido. Mae hwn yn cynnig cyfle i'r holl aelodau godi heriau a chyfleoedd perthnasol yn gysylltiedig â chyllido sy'n wynebu'r sector VAWDASV arbenigol yng Nghymru. Mae adborth gan ein haelodau wedi dangos bod llawer ar hyn o bryd yn ansicr o ran cyllid, neu heb gael cadarnhad y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol. Mae hyn yn adlewyrchu blynyddoedd blaenorol, gyda dim ond 33% (8) o wasanaethau bryd hynny'n hyderus y byddai eu cyllid yn parhau y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol<sup>12</sup>. Mae'r ansicrwydd hwn yn achosi ansicrwydd o ran staff a chyflenwi sy'n effeithio ar gadw a recriwtio yn ogystal ag ansicrwydd i oroeswyr sy'n cyrchu'r gwasanaethau y bydd eu cymorth yn parhau.

<sup>10</sup> <http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/State-of-the-Sector-Report-2016-FINAL.pdf>.

<sup>11</sup> <https://www.wao.gov.uk/system/files/publications/Supporting-People-2017-English.pdf>.

<sup>12</sup> <http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/State-of-the-Sector-Report-2016-FINAL.pdf>.





Live Fear  
Free Helpline

Providing confidential support  
and information on domestic  
abuse, sexual violence and  
violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth  
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chellogaeth  
cyffwrdd ynghyd â trais domestig,  
trais rhywiol a llwsg yn erbyn merched  
yng Nghymru



Cymorth i Ferched Cymru  
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

4.3 Mae llawer o wasanaethau VAWDASV yng Nghymru yn ei chael yn amhosibl i gynllunio'n ddigonol at y dyfodol oherwydd eu dibyniaeth ar gyllido blynyddol gan awdurdod lleol a grantiau tymor byr ychwanegol<sup>13</sup>. Er bod polisi a deddfwriaeth yn canolbwyntio ar ddulliau penderfynu tymor hir, nid yw hyn bob amser yn cael ei gefnogi gan agwedd tymor hir gyfatebol at gyllid a gyrchir gan y trydydd sector. Felly mae'r hinsawdd cyllido gyfredol ar gyfer darparwyr bach arbenigol yn gosod heriau sylweddol o ran cynllunio busnes strategol, cyflenwi gwasanaeth a datblygu ac amrywio incwm.

4.4 Mae gwasanaethau arbenigol wedi gweld lleihad yn eu staff a chadw arbenigedd, yn ogystal â chapasiti is, ar yr un pryd â gorfod lliniaru effaith toriadau cyllido<sup>14</sup>. Mae i hyn oblygiadau tymor hir ac o bosibl ddifaol i gynnalwydd gwasanaethau a darparaeth cymorth i fenywod a phlant ar draws Cymru.

4.5 O'u cyfuno, mae'r grantiau gan awdurdodau lleol (boed o adrannau Tai/Digartrefedd, Plant neu Deuluoedd yn Gyntaf, Diogelwch Cymunedol a grantiau eraill) yn cyfrif am 7.72% o gyllid y sector yn 2017/18 (gostyngiad o 9.84% yn 2016/17)<sup>15</sup>. Mae'r lleihad hwn yn bryder o ystyried y cynnydd arfaethedig mewn atgyfeiriadau o'r gwasanaethau cyhoeddus dros y pum mlynedd nesaf.

4.6 Yn sgil ymgynghoriad Cymorth i Ferched Cymru gyda'n haelodau a'r sector VAWDASV ehangach, mae tystiolaeth ar sail profiad yn awgrymu y bydd gwasanaethau arbenigol yn wynebu heriau cynyddol wrth geisio sicrhau cyllid digonol i gyflenwi eu gwasanaethau.<sup>16</sup> Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer gwasanaethau trais rhywiol a gwasanaethau BME arbenigol. Mae gwasanaethau trais rhywiol wedi derbyn gostyngiad sylweddol yn eu lefelau cyllid rhwng 2016/17 a 2017/18. Dangosodd arolwg Cymorth i Ferched Cymru o wasanaethau arbenigol leihad o 20.2%, gyda gostyngiadau cyllido drwy golli cyllid y Swyddfa Gartref. Ni sylwyd ar hyn gan gomisiynwyr lleol (fel yr oedd y Swyddfa Gartref wedi'i ddisgwyl). Ceir gostyngiadau pellach mewn contractau Llywodraeth Cymru (60% o ostyngiad cyllido o bob adran wedi'u cyfuno).<sup>17</sup>

4.7 Mae gwasanaethau VAWDASV BME arbenigol yn dibynnu i raddau helaeth ar gyllido ar lefel genedlaethol ar gyfer costau rheolaeth a seilwaith craidd, yn ogystal â rhywfaint o gyflenwi prosiectau yn y rhanbarthau.<sup>18</sup> Mae adborth a ddarparwyd i Cymorth i Ferched Cymru'n awgrymu bod tua 50% o'u cyllid o fis Mawrth 2018 yn annhebygol o barhau ar ôl y dyddiad hwn.<sup>19</sup> O'i gyfuno â'r diffyg buddsoddi mewn gwasanaethau VAWDASV BME arbenigol yn gyffredinol yn y rhanbarthau, diffyg asesu anghenion rhanbarthol sy'n amlygu anghenion goroeswyr VAWDASV o gymunedau BME, a'r anghysondeb sydd eisoes yn bodoli o ran argaeledd gwasanaethau VAWDASV BME arbenigol, ceir giwr risg i barhad y gwasanaethau hyn o 2018 ymlaen.

4.8 Sector cadarn yw sector sydd â model cynaliadwy ar gyfer cyllido. Fel y nodwyd yn adran 3 uchod, mae gallu'r sector VAWDASV i gynllunio at y dyfodol yn dibynnu i raddau helaeth ar

<sup>13</sup> <http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/State-of-the-Sector-Report-2016-FINAL.pdf>.

<sup>14</sup> Ibid.

<sup>15</sup> Cymorth i Ferched Cymru, 'Report to National Task and Finish Group to inform the development of a Model for Sustainable Funding for VAWDASV Specialist Services in Wales – Draft August 2017', 2017.

<sup>16</sup> Ibid.

<sup>17</sup> Ibid.

<sup>18</sup> Ibid.

<sup>19</sup> Ibid.





Live Fear  
Free Helpline

0808 80 10 800

Llinell Gymorth  
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chelwogaeth  
cyffwrddol ynghylch trais domestig  
trais rhywiol a llwys yn erbyn merched  
yng Nghymru



  
Cymorth i Ferched Cymru  
Welsh Women's Aid  
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

lwyddiant y model cyllido cynaliadwy sy'n cael ei ddatblygu, ochr yn ochr ag ymrwymadau atal, diogelu a chymorth eraill yn y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

#### Argymhelliad:

- 1) Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau cyllid craidd ar gyfer cyrff VAWDASV ar gyfer 2018/19 o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol (2017/18) er mwyn gwella gallu sefydliadau i gynllunio ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19.
- 2) Dylai model cyllido cynaliadwy Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector VAWDASV gyd-fynd â'r galw cynyddol a ddisgwylir yn sgil cyflwyno'r Ddeddf VAWDASV, sy'n drawsadrannol briodol i sicrhau cryfder y sector yn unol â'r Strategaeth a'r Cynllun Cyflenwi Cenedlaethol (ar waith ar hyn o bryd).

### 5.1 Hoffai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar nifer o feysydd penodol wrth graffu'r gyllideb. Oes gennych chi unrhyw sylwadau penodol ar y meysydd a nodir isod?

#### 5.2.1 Cyllido byrddau iechyd lleol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

5.2.2 Mae pob math o drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faterion iechyd cyhoeddus; mae angen i gyllidebau byrddau iechyd lleol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol adlewyrchu hyn. Yn 2017/18, roedd cyllid byrddau iechyd lleol yn gyfran fach iawn o gyfanswm cyllid y gwasanaethau VAWDASV arbenigol, ychydig o dan £120,500, oedd yn gynydd o 1% ar gyfanswm 2016/17, sef 0.49% o holl gyllid y gwasanaethau arbenigol<sup>20</sup>. Heb y gwasanaethau arbenigol hyn, byddai'r costau i'r gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill lawer yn uwch.

5.2.3 Mae'r cyswllt agos rhwng cam-drin o'r fath ac afiechyd meddyliol a chorfforol, diogelwch a llesiant plant, ynghyd â chanlyniadau cadarnhaol gweithio mewn partneriaeth, yn ei gwneud hi'n bwysicach fyth fod y GIG yn cydnabod ac yn gweithredu ar ei gyfrifoldebau yn y maes hwn. Mae'r GIG yn gwario mwy o arian ac yn treulio mwy o amser yn ymdrin ag effaith trais yn erbyn menywod a phlant nag unrhyw asiantaeth arall,<sup>21</sup> felly mae gweithredu i fynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau trais o'r fath nid yn unig yn gost-effeithiol ond hefyd yn cyfrannu at iechyd a llesiant y boblogaeth.

5.2.4 O'u cymharu â gwasanaethau eraill yn y DU, nid yw gwasanaethau VAWDASV arbenigol yng Nghymru yn elwa o fuddsoddiad gan y gwasanaeth iechyd/comisiynydd iechyd yn genedlaethol nac yn rhanbarthol. Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod busnes craidd y gwasanaethau arbenigol yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant y rheini sy'n wynebu profiadau niweidiol mewn plentyndod neu fel oedolion.<sup>22</sup>

5.2.5 Hoffai Cymorth i Ferched Cymru weld mwy o gyswllt rhwng cyllidebau iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai, a sut y caiff atal trais yn erbyn menywod ei drin yn strategol ar draws y

<sup>20</sup> Cymorth i Ferched Cymru, 'Report to National Task and Finish Group to inform the development of a Model for Sustainable Funding for VAWDASV Specialist Services in Wales – Draft July 2017', 2017

<sup>21</sup> [http://www.irisdomesticviolence.org.uk/iris/uploads/documents/IRIS\\_CommissioningPack.pdf](http://www.irisdomesticviolence.org.uk/iris/uploads/documents/IRIS_CommissioningPack.pdf).

<sup>22</sup> Public Health Wales, Making a Difference: Investing in Sustainable Health and Well-being for the People of Wales 2016.







Live Fear  
Free Helpline

Providing confidential support  
and information on domestic  
abuse, sexual violence and  
violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth  
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chelwogaeth  
cyswrtedig ynghylch trais domestig,  
trais rhywiol a llwsg yn erbyn merched  
yng Nghymru



sectorau hyn. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod buddsoddiad y GIG a gofal cymdeithasol yn galluogi'r asiantaethau hynny i chwarae mwy o ran yn atal cam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod.

5.2.6 Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi cefnogi cyflwynwyr cynnar ar safleoedd 'Gofyn a Gweithredu'<sup>23</sup>, sy'n gosod dyletswyddau newydd ar gyffwrdd cyhoeddus. Er y cafwyd peth cyllid ar gyfer y prosiect hwn, dylid costio a chyllido'r arbenigedd a'r cymorth a roddwyd gan y sector VAWDASV arbenigol drwy gydol yr hyfforddiant yn llawn, gan nad yw'n gynaliadwy i ddisgwyl i sector arbenigol sydd eisoes yn cael ei ymestyn roi eu hamser heb gymorth ariannol ar gyfer yr hyfforddiant sector cyhoeddus gorfodol hwn. Byddai Cymorth i Ferched Cymru yn disgwyl, er enghraifft, y dylid cyllido cost lawn hyfforddiant i staff iechyd, gan gynnwys cost y sector arbenigol fel cyd-hyfforddwr, yn llawn o'r gyllideb iechyd.

5.2.7 Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod buddsoddiad y GIG a gofal cymdeithasol yn galluogi'r asiantaethau hyn i chwarae rhan ehangach i atal cam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod, mewn partneriaeth gyda gwasanaethau argbenigol a Cymorth i Ferched Cymru. Dylai hyn gynnwys trefniadau cyllido sy'n cefnogi Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd yng Nghymru i:

- a. Ymrwymo i gyflawni agwedd iechyd cyhoeddus at atal cam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod.
- b. Comisiynu rhaglen IRIS ar gyfer gwasanaethau iechyd a gwasanaethau arbenigol annibynnol (trydydd sector) i sicrhau cyflwyno'n genedlaethol.<sup>24</sup>
- c. Gweithredu canllawiau trais yn erbyn menywod a Chanllawiau Trais a Cham-drin Domestig NICE (PH50 2014).<sup>25</sup>
- d. Cyflwyno 'Gofyn a Gweithredu' drwy Gymru gyfan gan ddefnyddio'r dysgu gan ddau safle a fabwysiadodd yn gynnar sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a grŵp Gwent.

#### Argymhelliad:

- 1) Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod buddsoddiad yn y GIG a gofal cymdeithasol yn galluogi portffolios Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai i chwarae rhan fwy yn atal cam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod.
- 3) Dylai costau hyfforddi llawn ar gyfer hyfforddiant gorfodol cyrff cyhoeddus fel Gofyn a Gweithredu gael eu cyllido gan gyllidebau sector cyhoeddus h.y. cyllido hyfforddiant staff Iechyd dan 'Gofyn a Gweithredu', gan gynnwys cost hyfforddwyr sector arbenigol o'r gyllideb Iechyd.

5.3.1 Agwedd at wario ataliol a sut y caiff hyn ei fyneqi wrth ddyrannu adnoddau (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau ac sy'n lleddfu galw yn y dyfodol ar wasanaethau drwy ymyrryd yn gynnar)

<sup>23</sup> <http://www.welshwomensaid.org.uk/training/ask-act/>.

<sup>24</sup> <http://commissioner.south-wales.police.uk/en/police-crime-plan/violence-women-girls/iris-identification-and-referral-to-improve-safety/>.

<sup>25</sup> <https://www.nice.org.uk/guidance/ph50/evidence/review-of-interventions-to-identify-prevent-reduce-and-respond-to-domestic-violence-430413229>.





Live Fear  
Free Helpline

Providing confidential support  
and information on domestic  
abuse, sexual violence and  
violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth  
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chelwogaeth  
cynffwrdd ynghylch trais domestig,  
trais rhywiol a llwsg yn erbyn merched  
yn Nghymru



5.3.2 Mae comisiynu gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar ar gyfer trais yn erbyn menywod yn fuddsoddiad ag iddo'r potensial i greu arbedion ariannol enfawr at y dyfodol. Mae trais domestig yn costio £303.5m bob blwyddyn i Gymru: £202.6m mewn costau gwasanaeth a £100.9m i allbwn economaidd a gollir.<sup>26</sup> Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw elfen o gostau dynol ac emosiynol, y mae'r ymchwil yn amcangyfrif eu bod yn costio £522.9m yn ychwanegol i Gymru.

5.3.3. Mae angen i wariant ataliol gael ei fuddsoddi'n dda, a dyna pam fod Cymorth i Ferched yn credu ym manteision arbed costau eang y model 'Newid sy'n Para'. Datblygwyd egwyddorion a'r dull gweithredu sy'n sail i'r model 'Newid sy'n Para' mewn partneriaeth rhwng Cymorth i Ferched Cymru a Women's Aid England, a'i ddatblygu ymhellach i fynd i'r afael yn well â'r risgiau y mae cyflawnwyr yn eu peri gyda Respect.<sup>27</sup>

5.3.4 Mae 'Newid sy'n Para' yn fodel a arweinir gan anghenion ar sail cryfderau sy'n cynorthwyo goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'u plant drwy wasanaethau a gaiff eu llywio gan drawma er mwyn adeiladu gwydnwch, ac mae'n arwain at ddiogelwch, rhyddid ac annibyniaeth. Ei nod yw atal achosion pellach o drais drwy ymyrraeth gynnar a chymorth arbenigol ac atal achosion newydd o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol drwy godi ymwybyddiaeth mewn cymunedau, lliniaru profiadau niweidiol plant a phobl ifanc a darparu ymyriadau i gyflawnwyr.

5.3.5 Mae 'Newid sy'n Para' yn fodel traws-sector (cymunedol, statudol a gwirfoddol) o ymyrraeth gynnar ac atal, ac yn fodel newydd, mwy effeithiol o gymorth i fenywod a phlant a effeithir gan, neu sydd mewn perygl o ddiwed trais a cham-drin. Mae'n mynd i'r afael â bylchau mewn modelau gwasanaeth cyfredol ac yn darparu agwedd integredig unigryw at ddiwallu anghenion goroeswyr, herio a newid ymddygiad cyflawnwyr, ac adeiladu ymatebion cymunedol cryf, mwy gwybodus a gwydn i drais yn erbyn menywod.

5.3.6 Mae Cymorth i Ferched Cymru'n argymhell ymrwymo cyllid trawsadrannol o fewn Llywodraeth Cymru, ac arallgyfeirio ffrydiau cyllido sy'n ymdrin â'r ystod lawn o anghenion goroeswyr VAWDASV a buddsoddi mewn ymyrraeth gynnar ac atal, ochr yn ochr â chymorth argyfwng a darpariaeth frys. Mae trais yn erbyn menywod yn achos ac yn ganlyniad i anghydraddoldeb rhywedd ar draws cymdeithas<sup>28</sup>, felly mae angen herio agweddau mewn ysgolion (drwy agwedd addysg gyfan<sup>29</sup> sy'n cynnwys trafodaethau priodol i oed drwy gydol taith addysg pob unigolyn - o'r cyfnod meithrin at addysg bellach a/neu uwch) ac o fewn y cymunedau eu hunain (gan gynnwys ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a mentrau gwyllyddyddion).<sup>30</sup>

#### Argymhelliaid:

- 1) Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno'r model 'Newid sy'n Para' i lywio cyllid ataliol ar gyfer VAWDASV.

<sup>26</sup> Walby, S., The Cost of Domestic Violence: Update 2009.

<sup>27</sup> <http://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/our-approach-change-that-lasts/>.

<sup>28</sup> UN General Assembly 2006: [http://www.un.org/womenwatch/daw/public/VAW\\_Study/VAWstudyE.pdf](http://www.un.org/womenwatch/daw/public/VAW_Study/VAWstudyE.pdf);

[http://www.who.int/violence\\_injury\\_prevention/violence/gender.pdf](http://www.who.int/violence_injury_prevention/violence/gender.pdf)

<sup>29</sup> <http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/safety/domesticabuse/publications/good-practice-guide-a-whole-education-approach/?lang=en>

<sup>30</sup> <http://www1.uwe.ac.uk/bl/research/interventioninitiative/thetoolkit.aspx>.





Live Fear Free Helpline

Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chelwogaeth cyffwrdd ynghylch trawsodrosg traws rhywiol a llwys yn erbyn merched yng Nghymru



- 2) Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo cyllid trawsadrannol ac amrywio ffrydiau cyllido sy'n ymdrin â'r ystod lawn o anghenion sydd gan oroeswyr VAWDASV, yn ogystal â buddsoddi mewn ymyrraeth ac atal cynnar, ynghyd â chymorth argyfwng a darpariaeth frys.

5.4.1 Cynladwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau

5.4.2 Mae Cymorth i Ferched Cymru'n pryderu y gallai gwasanaethau arbenigol weld cynnydd yn y nifer o oroeswyr sy'n cyrchu gwasanaethau sy'n profi anfanteision niferus fel cyflyrau iechyd meddwl yn ogystal â cham-drin, oherwydd colli gwasanaethau cyhoeddus. Gall goroeswyr sydd ag anfanteision niferus hefyd wynebu rhwystrau cynyddol at ganfod llefydd priodol mewn llochesi cam-drin domestig sy'n ymdrin â'u hanghenion, a allai olygu na allant gael yr holl ddarpariaeth gwasanaeth sydd ei hangen arnynt. Mae'n hanfodol nad yw gwasanaethau cyhoeddus fel darpariaeth iechyd meddwl yn mynd ar goll, a bod arbenigedd VAWDASV hefyd yn cael ei ddiogelu, fel bod modd ymdrin ag anghenion goroeswyr yn briodol drwy ddarpariaeth gyfannol sy'n gallu bodloni anghenion niferus.

5.4.3 Mae potensial y gallai'r tueddiad i fuddsoddi yng nghyllidebau craidd awdurdodau lleol yn hytrach na thrwy grantiau penodedig gael effaith niweidiol ar grantiau awdurdodau cyhoeddus i wasanaethau trais yn erbyn menywod. Mae nifer o wasanaethau arbenigol yng Nghymru eisoes wedi dweud wrthym bod toriadau gan awdurdodau lleol i'w cyllid grant yn cael eu gwneud er mwyn cefnogi darpariaeth statudol.<sup>31</sup> Maent hefyd yn dweud nad yw gwerth partneriaethau gyda darparwyr annibynnol arbenigol fel gwasanaethau cam-drin domestig yn cael ei gydnabod mewn llawer o awdurdodau lleol, sydd naill ai'n barod i dorri gwasanaethau a chyflenwi darpariaeth debyg yn fewnol, neu leihau darpariaeth arbenigol er mwyn cael contract gydag un darparwr generig mawr. Mae angen diogelu cyllid ar gyfer gwasanaethau VAWDASV.

5.4.4 Rydym yn argymhell y dylid targedu buddsoddi at newid systemau a thrawsnewid yn ogystal ag arloesi yn y gwasanaethau cyhoeddus. Mae newid systemau'n cael ei ffafrio gan wasanaethau'r sector gwirfoddol fel Cymorth i Ferched Cymru ac eraill, oherwydd ar hyn o bryd, mae systemau dan arweiniad y llywodraeth ar draws y gwasanaethau cyhoeddus wedi datblygu i allu ymateb i un 'angen' yn unig ar y tro, sydd yn ei dro'n gallu creu sefyllfaedd gwrthnysig lle mae rhai o'r rheini sydd â'r angen mwyaf yn derbyn y cymorth lleiaf.

5.4.5 Pe bai systemau rhyng-gysylltiedig yn newid i fodloni anghenion goroeswyr o'r dechrau, yna byddai adnoddau'n cael eu harbed a goroeswyr cam-drin yn cael llawer mwy o fudd cadarnhaol o'u hymwneud â'r awdurdodau cyhoeddus. I gefnogi agwedd o newid systemau sy'n trawsnewid gwasanaethau rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyllidebau trawsadrannol yn cefnogi cyflenwi arweiniad statudol amlasiantaethol sy'n cyflawni newid systemau a 'Newid sy'n Para'; gan flaenoriaethu cyflwyno ar sail cryfderau sy'n gosod goroeswyr yng nghanol unrhyw ymyrraeth.

Argymhelliad:

- 1) Mae Cymorth i Ferched Cymru yn argymhell yn gryf y dylai'r gyllideb flaenoriaethu cynladwyedd y trydydd sector annibynnol (yn ogystal â'r sector cyhoeddus) yn enwedig darparwyr arbenigol bach fel gwasanaethau VAWDASV.

<sup>31</sup> <http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/State-of-the-Sector-Report-2016-FINAL.pdf>.





Live Fear Free Helpline

Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chelwogaeth cyffwrddol ynghylch trawsodrosg trais rhywiol a llifas yn erbyn merched yng Nghymru



- 3) Dylid targedu buddsoddi at systemau newid a thrawsnewid, yn ogystal ag arloesi o ran gwasanaeth cyhoeddus.
- 3) Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyllidebau trawsadrannol yn cefnogi cyflwyno canllawiau statudol amlasiantaethol sy'n cyflawni newid i systemau a 'Newid sy'n Para'.

5.5.1 Polisiau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi, lliniaru diwygiadau lles

5.5.2 Rydym ni'n cefnogi gweledigaeth ar gyfer Cymru fwy cyfartal, a gweithredu i fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau tlodi, creu cymunedau cydlynol, gwydn lle mae gan bawb y cymorth sydd ei angen i fyw bywydau iach, ffyniannus ac annibynnol.

5.5.3 Fodd bynnag, mae Cymorth i Ferched Cymru'n argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod buddsoddiad cyllidebol sydd wedi'i dargedu at leihau tlodi a lliniaru diwygiadau lles yn ymdrin yn rhagweithiol ag atal trais yn erbyn menywod a'i effeithiau negyddol ar fenywod a phlant.

5.5.4 Er eu bod yn rhan o gylch gorchwyl Llywodraeth y DU, mae gan y newidiadau arfaethedig i'r Budd-dal Tai a ddaw i rym yn 2019, a newidiadau i'r Credyd Cynhwysol oblygiadau enfawr i ddarpariaeth gwasanaethau VAWDASV arbenigol yng Nghymru. Mae Cymorth i Ferched Cymru'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i lywio datblygiad model ar gyfer cyllido tai a all weithio o fewn y newidiadau lles. Mae aelodau Cymorth i Ferched Cymru wedi pwysleisio bod newid o ran cyllido o'r model budd-dal tai presennol yn cyflwyno risg gwirioneddol i lochesi yng Nghymru gan fod budd-dal tai yn gyfran fawr o incwm llochesi. Gallai'r holl ddarpariaeth llochesi ar draws Cymru fod mewn perygl gydag o leiaf 70% o'r ddarpariaeth yn debygol o gau os na cheir datrysiad.<sup>32</sup> Rhaid i ddatrysiad Llywodraeth Cymru gyd-fynd â'i hymrwymiad i gydweithio i adeiladu darpariaeth gwasanaethau arbenigol a datblygu model cyllido cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol yn y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

5.5.5 Mae Cymorth i Ferched Cymru hefyd wedi ymgynghori â goroeswyr ynghylch effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU ar eu bywydau a bywydau eu plant. Mae goroeswyr yng Nghymru'n dweud wrthym eu bod yn cael eu heffeithio'n andwyol gan y newidiadau i Gredyd Cynhwysol a Chredyd Treth Plant. Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi codi llais ynglŷn â'r effeithiau hyn, sydd nid yn unig yn wahaniaethol ond sydd hefyd yn gosod menywod a phlant mewn perygl o gam-drin pellach. Er nad yw'r polisiau lles hyn wedi'u datganoli, mae gan Lywodraeth Cymru, drwy Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, ddyletswydd i gefnogi a diogelu goroeswyr, gan gynnwys y rheini y mae diwygiadau lles yn effeithio arnynt. Byddai Cymorth i Ferched Cymru yn gofyn i Lywodraeth Cymru godi llais ynghylch y 'Cymal Trais' sy'n golygu bod menywod yn gorfod datgelu trais er mwyn derbyn Credyd Treth Plant ar gyfer trydydd plentyn a allai fod yn ganlyniad trais<sup>33</sup>.

5.6.1 Cynllunio a pharodrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Brexit

<sup>32</sup> <http://www.welshomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/State-of-the-Sector-Report-2016-FINAL.pdf>

<sup>33</sup> Datganiad Cymorth i Ferched Cymru ar y 'cymal trais': <http://www.welshomensaid.org.uk/2017/04/Welsh-Womens-Aid-Statement-Uk-Governments-Tax-Credit-Rape-Clause/>







Live Fear Free Helpline

Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales

0808 80 10 800

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chellogaeth cyffwrdd ynghylch traws-ddorwg traws rhywiol a llwys yn erbyn merched yng Nghymru



5.6.2 Ceir llawer o ansicrwydd ynghylch Brexit a'r effeith niweidiol y bydd tynnu allan o Ewrop yn ei gael ar y bobl fwyaf bregus yng Nghymru. Rydym ni'n bryderus iawn am y diffyg menywod yn yr uwch dîm sy'n trafod Brexit - gyda dwy fenyw yn unig ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Mae Cymorth i Ferched Cymru'n teimlo nad yw menywod na Chymru'n cael eu cynrychioli'n briodol yn y trafodaethau.

5.6.3 Rydym ni'n bryderus y bydd colli arian yr UE yn effeithio ar y sector yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, wrth i brosiectau'r UE ddod i ben, yn ogystal â'r ffaith na fydd gwasanaethau VAWDASV bellach yn gallu manteisio ar ffrydiau cyllido'r UE yn y dyfodol.

5.6.4 Rydym ni'n ofni y bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn cynyddu'r nifer o fenywod nad oes ganddynt fodd i gyrchu cyllid cyhoeddus, gan nad yw'n glir sut y bydd dinasyddion yr UE ac eraill yn gallu cael cyllid i ddefnyddio gwasanaethau arbenigol, fel llochesi, ac felly y bydd menywod mewn perygl o bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol heb fynediad priodol at gymorth, sy'n torri eu hawliau.

5.6.5 Gall talu costau lletya menywod na allant gael cyllid cyhoeddus fod yn faich ariannol ar wasanaethau arbenigol, yn enwedig darpariaeth BME. Gall hyn effeithio ar gynladwyedd y ddarpariaeth. Bydd angen i Lywodraeth Cymru ddarparu cymorth i awdurdodau lleol a darparwyr fel bod prosesau amgen ar waith i dalu costau byw/lletya dinasyddion yr UE a'u plant na allant gael cyllid cyhoeddus i gyrchu diogelwch a gwarchodaeth wrth geisio cymorth VAWDASV. Dylai hyn gyd-fynd â dyletswyddau dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Er enghraifft, wrth gomisiynu gwasanaethau VAWDASV dylid cydweithio gyda gwasanaethau cymdeithasol i gytuno ar gyllid ar gyfer menywod a phlant sydd wedi profi cam-drin domestig na allant gael cyllid cyhoeddus, drwy gronfeydd eraill.

5.7.1 Sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethu a benthyca newydd

5.7.2 Bydd gallu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i osod cyfraddau treth incwm yng Nghymru o fis Ebrill 2019 ymlaen yn cynyddu gallu pobl Cymru i ddal Llywodraeth Cymru i gyfrif. Am y rheswm hwn, byddai Cymorth i Ferched Cymru yn gobeithio am gynnydd yn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn darpariaethau ar gyfer atal a chefnogi goroeswyr VAWDASV, gan gynnwys plant a phobl ifanc, a chydabod cost anferthol VAWDASV yng Nghymru bob blwyddyn. Fel y nodwyd uchod, mae cost cam-drin domestig ar ei ben ei hun yng Nghymru yn £826.4m bob blwyddyn (mewn costau gwasanaeth, colli allbwn economaidd a chostau emosiynol). Yn ogystal, amcangyfrifir fod pob lladdiad cam-drin domestig yn costio o ddeutu £1.1million i'r gwasanaethau cyhoeddus.<sup>34</sup>

5.7.3 Mae'r allbwn economaidd a gollir bob blwyddyn yn sgil cam-drin domestig yng Nghymru o ddeutu £100.9m o'r gost flynyddol<sup>35</sup>. Mae'r cyfrifiad hwn yn cynnwys enillion, cynnyrch a threthi a gollir oherwydd yr amser o'r gwaith oherwydd yr effaith ar iechyd y goroeswr, gan gynnwys anafiadau yn sgil y cam-drin. Fodd bynnag mae cam-drin a rheolaeth hefyd yn effeithio ar statws cyflogaeth goroeswyr, naill ai drwy'r rheini y gorfodir iddynt adael gwaith neu am eu bod yn methu â gweithio am resymau corfforol/seicolegol. Wrth i bwerau trethu newydd ddod i Gymru

<sup>34</sup> Walby, S. (2009) The Cost of Domestic Violence: Update 2009. Lancaster: Lancaster University.

<sup>35</sup> ibid





Live Fear  
Free Helpline

0808 80 10 800

Llinell Gymorth  
Byw Heb Ofn

0808 80 10 800



  
Cymorth i Ferched Cymru  
Welsh Women's Aid  
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

bydd y colledion economaidd hyn fel canlyniad uniongyrchol i VAWDASV yn cael effaith andwyol ar faint o dreth incwm y gall Llywodraeth Cymru ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau yng Nghymru. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd ymyrraeth gynnar ac atal, gan fod yr effeithiau ar gymdeithas yn bellgyrhaeddol. Drwy gynnwys dulliau i atal VAWDASV, bydd Cymru'n fwy ffyniannus o ran gwariant cyhoeddus a hefyd o ran gallu personol i ennill arian, dysgu a llwyddo.

### 5.8.1 Sut mae tystiolaeth yn llywio Llywodraeth Cymru wrth osod blaenoriaethau a dyraniadau cyllideb

5.8.2 Mae Cymorth i Ferched Cymru'n galw am ddyrannu cyllid ar fodel seiliedig ar dystiolaeth; mae Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo Cymorth i Ferched Cymru i ddatblygu model ymyrraeth gynnar ac atal trais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol, o'r enw 'Newid sy'n Para' (fel yr eglurwyd uchod).<sup>36</sup> I oroeswyr byddai hyn yn golygu cymuned sy'n gallu cydnabod eu profiad ac ymateb i'w hanghenion unigol penodol. Mae'r model yn cydnabod goroeswyr ag anghenion cymorth niferus, gan gynnwys rhai sy'n gysylltiedig ag oed a disgwyliad oes, a'i nod yw cynyddu gallu'r gwasanaethau arbenigol i ymateb i'r anghenion unigol hynny.

5.8.3 Mae Cymorth i Ferched Cymru hefyd wedi paratoi adroddiad ar sail tystiolaeth i gefnogi model y gwasanaethau VAWDASV arbenigol ar gyfer cyllido cynaliadwy i grŵp gorchwyl a gorffen Llywodraeth Cymru er mwyn cyflwyno tystiolaeth gywir i gefnogi dyrannu cyllideb a gosod blaenoriaethau ar sail tystiolaeth.

#### **Argymhelliad:**

- 1) Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio gwybodaeth ar sail tystiolaeth gan Cymorth i Ferched Cymru wrth benderfynu ar osod blaenoriaethau a dyrannu cyllidebau, gan gynnwys yr adroddiad a gynhyrchwyd ar ran Llywodraeth Cymru ar gyfer y model cyllido cynaliadwy, a gwaith yn ymwneud â'r model "Newid sy'n Para".

### 5.9.1 Sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn dylanwadu ar lunio polisi

5.9.2 Er ei bod yn ofynnol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i Fyrddau Gwasanaeth Lleol gyhoeddi asesiadau llesiant, datblygwyd y gwaith hwn yn 2017 ar wahân i'r gwaith ar strategaethau lleol VAWDASV. Canfu Cymorth i Ferched Cymru fod y mwyafrif llethol o'r 19 o asesiadau llesiant lleol gan y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus<sup>37</sup> yn isel iawn eu safon mewn perthynas â VAWDASV, oedd yn bryder mawr i ni.

9.2.3 Asesiad llesiant Powys<sup>38</sup> oedd â'r ddealltwriaeth, parch ac ymrwymiad gorau i VAWDASV. Er hynny, mae'r asesiad yn cydnabod mai ychydig iawn o ymchwil a wnaed i VAWDASV, er iddynt ymgynghori â gwasanaethau arbenigol lleol, ac y nodwyd eu pryderon.

<sup>36</sup> Mae'r model wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth, gyda chefnogaeth gychwynnol gan Lywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref a Women's Aid England, a chaiff ei lywio gan adolygiad o'r llenyddiaeth a'r dulliau gweithredu cyfredol ac ymgysylltu eang gyda rhanddeiliaid gan gynnwys ymgynghori gyda goroeswyr a gwasanaethau arbenigol.

<sup>37</sup> Ceir doler at y 19 dogfen yma: <http://gov.wales/topics/improving-services/public-services-boards/?lang=en>

<sup>38</sup> <http://www.powys.gov.uk/en/corporate/find-out-about-consultations-in-powys/past-consultations/well-being-assessment-survey/full-well-being-assessment-analysis/>.





Live Fear  
Free Helpline

0808 80 10 800

Llinell Gymorth  
Byw Heb Ofn

0808 80 10 800



  
Cymorth i Ferched Cymru  
Welsh Women's Aid  
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf  
Putting Women & Children First

9.2.4 Mewn cymhariaeth, nid yw Ynys Môn na Gwynedd<sup>39</sup>, a ddatblygodd eu hasesiadau gyda'i gilydd ond eu cyhoeddi ar wahân, yn gwneud unrhyw gyfeiriad at unrhyw fath o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig na thrais rhywiol.

9.2.5 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Byddai buddsoddiad priodol yn y gwasanaethau arbenigol ar draws Cymru'n helpu i sicrhau llawer o 'Nodau Llesiant' y Ddeddf ar gyfer **Cymru fwy llewyrchus, Cymru â chymunedau cydlynol a Chymru fwy iach, fwy cyfartal.**

9.2.6 Mae gan ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol ar drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, y potensial i wneud gwahaniaeth enfawr i lewyrch a llwyddiant Cymru yn y degawdau nesaf.

#### Argymhelliad:

- 1) Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn dylanwadu'n gadarnhaol ar greu polisiâu VAWDASV drwy ddarparu arweiniad a chanllawiau gyda disgwyliadau clir o'r safonau ansawdd sydd eu hangen yn rhanbarthol ac yn lleol, gan gynnwys ymgysylltu â'r sector arbenigol i helpu i lywio polisiâu priodol ar sail tystiolaeth ym mhob maes.

Hoffai Cymorth i Ferched Cymru ddiolch eto i'r Pwyllgor Cyllid a Phwyllgorau eraill Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y cyfle i gynnig sylwadau ar y mater pwysig hwn. Mae Cymorth i Ferched hefyd ar gael i ddarparu rhagor o dystiolaeth ysgrifenedig a llafar ynghylch y materion hyn os oes angen.

Gellir cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau am ein hymateb i:

Hilary Watson – Swyddog Polisi ac Ymchwil

02920 541 551

[HilaryWatson@welshwomensaid.org.uk](mailto:HilaryWatson@welshwomensaid.org.uk)

<sup>39</sup> <https://gwyneddandmonwell-being.org/>.

